## Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

14 Awst 2018

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

### Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

> *O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, rwy'n ceisio'r wybodaeth a ganlyn am dîm cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyflogau sy'n cael eu talu i'r uwch-aelodau o staff cyfreithiol:*
>
> 1. *Y cyflog blynyddol mewn punnoedd (£) a delir i Elisabeth Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*
> 2. *Unrhyw dreuliau neu anrhegion a gofnodwyd gan Elisabeth Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, hyd at y dyddiad mwyaf diweddar sydd ar gael*
> 3. *Nifer y staff yn nhîm cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
> 4. *Dadansoddiad o'r rolau hynny (h.y, nifer y cyfreithwyr ac aelodau eraill o staff) yn nhîm cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Mae ein hymateb i'ch ceisiadau i'w weld isod.

1. Caiff y cyflog a delir i Elisabeth Jones ei gyhoeddi yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 o dan y pennawd *Uwch-aelodau o staff y Comisiwn* (tudalen 110 ymlaen). Hefyd, mae adroddiadau blynyddol blaenorol i'w gweld ar ein gwefan. Noder mai rôl Elisabeth Jones yw Prif Gynghorydd Cyfreithiol. Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn cyflogi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol.

   Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae'r rhan hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn hygyrch o fewn rheswm drwy ddulliau eraill, h.y. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

2. Unwaith eto, mae gwybodaeth am unrhyw dreuliau sy'n cael eu hawlio i'w gweld yn ein hadroddiad blynyddol ar dudalen 116. Eto, gan fod peth o'r wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn hygyrch o fewn rheswm drwy ddulliau eraill, h.y. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

   Mae'r anrhegion y derbyniodd Elisabeth Jones fel a ganlyn:
   - Potel o prosecco a chinio brechdanau – 15.09.2016
   - Potel o Wisgi Penderyn – 16.09.2016.

3. Mae cyfanswm o 14 o bobl yn gweithio yn y Gwasanaethau Cyfreithiol.

4. Mae'r rolau hyn fel a ganlyn:
   - 12 cyfreithiwr (Cynghorwyr Cyfreithiol);
   - 1 cyfreithiwr dan hyfforddiant; ac
   - 1 rheolwr swyddfa.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF